

Am beth rydym ni'n chwilio?

Yn syml, dylai modelau rôl ar y rhwydwaith Gwasanaethau Entrepreneuriaeth leuenctid adlewyrchu amrywiaeth y busnesau yng Nghymru. Rydym yn croesawu entrepreneuriaid o bob cwr o Gymru sy'n cyd-fynd ag ethos y prosiect sef gadael i'r entrepreneuriaid siarad!

Cyn llenwi'r Ffurflen Gais, edrychwch ar y tabl isod i sicrhau eich bod yn bodloni'r holl Feini Prawf Hanfodol.

Meini Prawf Hanfodol	Meini Prawf Dymunol
Ydych chi wedi bod yn rhedeg eich busnes am o leiaf ddwy flynedd neu wedi rhedeg eich busnes am flwyddyn ond â dwy flynedd o brofiad o redeg busnes arall?	Ydych chi'n entrepreneur sydd wedi llwyddo i gychwyn a rhedeg eich busnes eich hun sydd â phrofiad o fynd â chynnyrch neu wasanaeth i'r farchnad, gan greu brand, cyflogi pobl a meddu ar arferion busnes rhagorol?
Ydych chi'n rhedeg busnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW sy'n cyflogi o leiaf un person arall?	Ydych chi'n gyfathrebwr da sy'n gallu ysbrydoli eraill? Ydych chi'n onest, yn empathetig ac yn mwynhau cyfarfod a gweithio gyda phobl ifanc? Oes gennych chi stori dda i'w rhannu gyda phobl ifanc?
Ydych chi'n dibynnu ar eich busnes fel eich prif ffynhonnell incwm?	Ydych chi'n barod i rannu gweledigaeth ac ethos y model rôl ar gyfer Prosiect Gwasanaethau Entrepreneuriaeth leuenctid, yn llawn cymhelliant ac yn barod i wirfoddoli eich amser fel cyfraniad i'ch cymuned a'ch cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol?
Ydych chi'n barod i ymgymryd â diwrnod a hanner o hyfforddiant cyflwyno, ½ diwrnod o gysgodi, adolygiadau perfformiad parhaus ac yn cytuno i ddarparu o leiaf 10 cyflwyniad dros gyfnod o 2 flynedd?	Ydych chi'n entrepreneur sy'n cynrychioli grŵp sy'n cael ei dangynrychioli e.e. yn ferch, o gefndir lleiafrif ethnig, siaradwr Cymraeg, â nam ar y golwg neu nam corfforol? Ydych chi'n ychwanegu gwerth at a/neu'n mynd i'r afael ag angen penodol yn y rhwydwaith lleol? Rydym hefyd eisiau sicrhau bod gennym amrywiaeth o entrepreneuriaid sy'n rhedeg busnesau bach a mawr.
	Ydych chi'n barod i fodloni anghenion diddordebau myfyrwyr a chyrsgol a phrifysgol er mwyn sicrhau bod y rhai sydd wedi cymryd rhan ac sydd wedi cael eu hysbrydoli drwy eu haddysg yn dychwelyd i'r system i ysbrydoli eraill?